

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P KW/3815/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref 2018. Rwyf wedi ymateb i bob un o'ch cwestiynau isod.

- ***Sut benderfynodd Llywodraeth Cymru ar drothwy o £7,400 ar gyfer incwm blynyddol net?***

Ein prif ystyriaeth yw y dylai'r rheini yn yr angen mwyaf gael yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'n hanfodol hefyd fod ein cynigion yn fforddiadwy ac yn cynrychioli defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Mae'n bwysig nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw gyllid ychwanegol i reoli effaith agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim.

Ar ôl dadansoddi effaith bosib nifer o drothwyon ar gyfer incwm net blynyddol, credwn mai'r trothwy mwyaf priodol yw £7,400, o ystyried yr ystyriaethau uchod. Mae ein dadansoddiad diweddaraf yn awgrymu y bydd mwy o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gydol y cyfnod ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol diolch i'r polisi hwn na fyddai wedi bod yn gymwys o dan yr hen system.

Byddai teulu cyffredin sy'n ennill tua £7,400 y flwyddyn, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, yn ennill cyfanswm o rhwng £18,000 a £24,000 ar ôl cyfrif budd-daliadau. Felly, nid yw swm yr enillion net yn cynrychioli cyfanswm incwm aelwyd gan nad yw'n cynnwys incwm o fudd-daliadau, sy'n cynyddu incwm cyffredinol aelwyd yn sylweddol.

Ystyriaeth bwysig arall i Lywodraeth Cymru yw sicrhau y byddai unrhyw newid i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno mewn ffordd mor ddidrafferth â phosib. Felly, mae ein cynigion yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fydd y meini prawf yn newid, neu unrhyw hawlwyd newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim adeg cyflwyno Credyd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhwysol (mae disgwyl i'r broses fod yn gyflawn erbyn Rhagfyr 2023), yn cael eu diogelu rhag eu colli nes bod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol wedi'i chwblhau, hyd yn oed os yw eu cymhwysedd yn newid.

Ar ôl cwblhau'r broses gyflwyno, bydd unrhyw hawlwr prydau ysgol am ddim sydd ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach (am eu bod yn ennill mwy na'r trothwy) yn parhau i gael eu diogelu hyd nes iddynt gwblhau'r cyfnod hwnnw o'u haddysg (e.e. cynradd, uwchradd).

Byddwn yn cadw golwg ar y trothwy i sicrhau bod y rheini yn yr angen mwyaf yn cael prydau ysgol am ddim.

- ***A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw drothwyon eraill, er enghraifft, £14,000 fel yng Ngogledd Iwerddon?***

Roedd y [Crynodeb o Aseiad Effaith Rheoleiddiol Drafft](#), a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, yn ystyried tri opsiwn polisi fel a ganlyn:

- **Cynnal y status quo.** Byddai hyn yn golygu y byddai'r meini prawf cymhwysedd cyffredinol dros dro i gael prydau ysgol am ddim yn parhau ar gyfer yr holl hawlwr y Credyd Cynhwysol. Yn ôl ein dadansoddiad, erbyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn, byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16 y cant yn Ionawr 2018). Ni fyddai hyn yn fforddiadwy.
- **Cyflwyno trothwy enillion net blynyddol o £6,200.** Amcangyfrifwn y bydd hyn yn niwtral i raddau helaeth o ran cohort (a chost) erbyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn.
- **Cyflwyno trothwy enillion net blynyddol o £7,400.** Hwn oedd yr opsiwn roeddem yn ei ffafrio am y rhesymau a roddwyd uchod.

Er bod polisi cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yng Ngogledd Iwerddon wedi'i ddatganoli hefyd, dylid bod yn ofalus wrth gymharu Cymru a Gogledd Iwerddon. O dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, mae nawdd cymdeithasol (lles) wedi'i ddatganoli i Ogledd Iwerddon. Hyd yn oed cyn cyflwyno trothwy incwm enillion net o £14,000, roedd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn wahanol i'r rhai yng Nghymru. Un o'r prif wahaniaethau yw bod teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon sy'n cael Credyd Treth Gwaith ac sy'n ennill llai na £16,190 o incwm trethadwy blynyddol gros yn gallu cael prydau ysgol am ddim i'w plant. Felly nid oes modd cymharu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Ngogledd Iwerddon ac yng Nghymru oherwydd nid ydych yn cymharu dau beth tebyg.

- ***Faint yn rhagor o ddisgyblion y mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif fyddai'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pe bai trothwy o £14,000 ar gyfer incwm blynyddol net a beth fyddai costau ychwanegol hyn?***

Rydym yn disgwyl i'r cohort prydau ysgol am ddim (ac felly'r costau blynyddol heb gynnwys yr amcanestyniadau) i fod tua dwywaith y fwy os bydd trothwy o £14,000 ar gyfer incwm enillion net blynyddol o gymharu â throthwy o £7,4000 ar ôl cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn.

- ***Beth fyddai goblygiadau mabwysiadu trothwy uwch na'r £7,400 sydd mewn golwg ar gyfer cymhwysedd i gael y Grant Amddifadedd Disgyblion a chostau cysylltiedig?***

Mae cymhwysedd i gael y Grant Amddifadedd Disgyblion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Pe baem yn mabwysiadu trothwy uwch na £7,400 ar gyfer incwm enillion net blynyddol, byddai hyn yn cynyddu nifer y disgyblion sydd â hawl i'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Cyhoeddais ym mis Mawrth y byddai dyraniadau Grant Amddifadedd Disgyblion ysgolion yn parhau'r un fath ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r un nesaf; roedd y newid posibl yn y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhan bwysig o'r sail resymegol ar gyfer y penderfyniad hwn.

Bydd newidiadau yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn effeithio ar nifer o feysydd polisi eraill fel dosbarthiad cyllid awdurdodau lleol a'r ffordd rydym yn defnyddio cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim i fesur lefelau cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Cyn gwneud penderfyniad am feini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim, mae angen i mi ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad cyhoeddus diweddar ac unrhyw oblygiadau ehangach. Byddaf yn rhannu datblygiadau gyda'r Pwyllgor.

Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn fuan yn amlinellu ein camau nesaf, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am amserlenni.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education